Derbyniwyd sylwadau ar yr adolygiad gan yr heddlu a dau o'r preswylwyr cyfagos. 'Roedd yr heddlu'n cadarnhau iddynt dderbyn sawl cwyn gan drigolion cyfagos ynglyn ag ymddygiad cwsmeriaid tu allan i'r eiddo a'i fod yn agored am 03.00 a 04.00. 'Roedd y ddau breswylydd hefyd yn cwyno am y sŵn a throsedd ac anhrefn yn Stryd Tegid yn ystod oriau mân y bore ac yn gofyn am ostwng oriau cyflenwi alcohol yn yr eiddo hwn a sefydliadau cyffelyb eraill yn y dref.

Nododd mai awgrym y Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu yw gostwng oriau darparu lluniaeth hwyr yn y nos a chyflenwi alcohol yn yr eiddo i 00.00 a gostwng yr oriau agor i 00.15 bob diwrnod o'r wythnos. Ers cyflwyno'r cais am adolygiad deellir bod yr eiddo wedi cau ond ni ildiwyd y drwydded ac felly mae'r drwydded yn parhau'n fyw.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii) Gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii) Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv) Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v. Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu Hachos

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu ddatganiad tyst a oedd yn cyferio at wahanol ddigwyddiadau yn ymwneud â'r eiddo. Cyfeiriodd yn benodol at y canlynol –

- Y derbyniwyd gwybodaeth gan Heddlu Gogledd Cymru am gŵyn ynglyn â'r ffaith bod yr eiddo hwn wedi bod yn agored tan 02.00 ac yn hwyrach, gan achosi sŵn ac aflonyddwch i breswylwyr y stryd. Archwiliwyd eu ffeil eiddo, pryd y sylwyd mai'r oriau a ganiatwyd oedd, gwerthu bwyd poeth a diodydd alcoholic tan 01.00 a'r oriau agor i'r cyhoedd tan 01.30 (amser clirio).
- Ar 9 Mehefin 2012, am 01.00 sylwyd bod goleuadau'r eiddo wedi eu diffodd ond bod yr arwydd "Agored" tu allan yn parhau wedi ei oleuo. Yna am 01.40, sef ar ôl yr amser cau, aeth person ifanc i mewn i'r siop a dod allan yn ddiweddarch yn cario "pizza" mewn bocs.
- Ar 21 Mehefin 2012, am 01.00 sylwyd bod goleuadau ac arwyddion yr eiddo wedi diffodd ac ni aeth unrhyw gwsmeriaid at y siop.
- Ar 28 Gorffennaf 2012, am 01.00 sylwyd bod goleuadau ac arwyddion yr eiddo yn parhau ymlaen ac am 01.30 aeth merch i mewn i'r siop ac yn ddiweddarach daeth allan yn cario "pizza" mewn bocs. Am 01.40 daeth dau ddyn allan o'r siop, eto yn cario bocs "pizza" ac am 01.50 diffoddodd y goleuadau a'r arwyddion. Am 02.13, daeth dau ddyn arall allan o'r siop yn cario bocs "pizza".
- Bod perchennog Antrium Alfresco hefyd yn berchennog Y Cwrt sydd drws nesaf ac am 02.25 ar 28 Gorffennaf 2012 gwelwyd aelod o'r staff yn sefyll yn nrws Y Cwrt yn dal dau focs "pizza".

Manteisiodd y preswylwyr lleol oedd yn bresennol, ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- Y cafwyd problemau gyda sŵn tu allan i'r eiddo a oedd yn amharu ar eu mwynderau, ond ers i'r eiddo gau, mae'r broblem honno wedi stopio ond bod y sŵn yn parhau tu allan i adeilad Y Cwrt.

- Bod problem gyda rheoli cwsmeriaid ar y stryd.
- Y gadewir ysbwriel a photeli wedi eu malurio ar y stryd ac ar silffoedd ffenestri'r tai.

Mewn ymateb i'r uchod, nododd deilydd y drwydded y sylwadau canlynol –

- Y caewyd y busnes diwedd Tachwedd 2012 ac erbyn hyn mae'r eiddo ar werth.
- Nad oedd yn derbyn bod y sŵn yn Stryd Tegid yn deillio o'i siop gan bod eiddo trwyddedig eraill yn y dref.
- Y cydnabu iddo beidio â chydymffurfio ag amodau'r drwydded, ac ar ôl cael cerydd ynglyn â hynny, fe stopiodd werthu bwyd yn hwyr y nos, ac o ganlyniad i hynny mae'r sŵn a'r anhrefn wedi lleihau yn y stryd.

Nododd Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu, na dderbyniwyd unrhyw gwynion ers i'r eiddo gau.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

'Roedd yn aelodau'n cytuno â'r adolygiad yn wyneb y dystiolaeth a gyflwynwyd. Mewn perthynas â'r teledu cylch cyfyng 'roedd yna dor-amod cyfredol ac efallai yn destun adolygiad pellach neu achos troseddol. 'Roedd angen hefyd gofyn i'r deilydd ildio'r drwydded.

**PENDERFYNWYD caniatau'r cais adolygu yn rhannol fel a ganlyn:**
**1. Diwygio'r drwydded eiddo fel a ganlyn -**
**a) Darparu lluniaeth hwyr yn y nos rhwng 23.00 a 00.00, Dydd Sul i Ddydd Sadwrn.**
**b) Cyflenwi alcohol yn yr eiddo rhwng 12.00 a 00.00, Dydd Sul i Ddydd Sadwrn**
**c) Oriau agor yr eiddo rhwng 12.00 a 00.15, Dydd Sul i Ddydd Sadwrn**
**2. Peidio gwneud diwygiadau i'r drwydded mewn perthynas â'r teledu cylch cyfyng gan bod yna dor-amod cyfredol a fyddai efallai'n destun adolygiad pellach neu achos troseddol.**
**3. Gwahodd deilydd y drwydded i ildio'r drwydded oherwydd bod yr eiddo erbyn hyn wedi cau.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## 2. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – Y CWRT, 62 STRYD FAWR, BALA

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ymgeisydd:** Ms Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Systemau Gweithredol – Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd)

**Ar ran yr ymgeisydd:** Ms Gwenan Williams (Rheolwr Trwyddedu) a'r Mri Alwyn Thomas a Robert Taylor (Swyddogion Gorfodaeth Trwyddedu)

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran Y Cwrt, 62 Stryd Fawr, Bala:** Mr Maseoud Anafcheh (Deilydd y drwydded) a Ms Moira Mai

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Mr Paul Grainge a Mrs Wendy Grainge

**Ymddiheuriad:** Y Cynghorydd Gethin G. Williams

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Systemau Gweithredol – Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ar gais a dderbyniwyd gan Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu'r Cyngor i adolygu trwydded eiddo Y Cwrt, 62 Stryd Fawr, Bala. Gwneir y cais hwn gan yr awdurdod trwyddedu sy'n gweithredu fel yr awdurdod cyfrifol dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac mae'n ymwneud â'r amcanion trwyddedu sef atal trosedd ac anhrefn, diogelwch y cyhoedd ac atal niwsans cyhoeddus. Nododd mai'r rheswm am yr adolygiad yw y darganfwyd bod yr eiddo'n cynnal gweithgaredd darparu lluniaeth hwyr yn y nos heb drwydded.

Nododd bod datganiadau tyst y Swyddogion Gorfodaeth Trwyddedu yn datgan mai wrth ymateb i gwynion ynglyn â sŵn ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol ar Stryd Tegid y darganfuwyd bod yr eiddo'n darparu lluniaeth hwyr yn y nos. Nid yw'r drwydded eiddo yn cynnwys darparu lluniaeth hwyr yn y nos.

Derbyniwyd sylwadau ar yr adolygiad gan yr heddlu, busnesau lleol a phreswylwyr cyfagos. 'Roedd yr heddlu'n cadarnhau iddynt dderbyn sawl cwyn gan drigolion lleol parthed ymddygiad cwsmeriaid yr eiddo a bod pobl yn gadael yr eiddo ar ôl 04.00. Honai'r busnesion eu bod yn dioddef oherwydd y sŵn a throsedd ac anhrefn a fodolai ar y Stryd Fawr wrth i gwsmeriaid Y Cwrt adael yr eiddo yn ystod oriau mân y bore. Yn ogystal mae'r preswylwyr yn cwyno am y sŵn a throsedd ac anhrefn yn Stryd Tegid yn ystod oriau mân y bore oherwydd bod pobl yn feddw ac mae sefydliadau eraill yn y dref yn gwerthu alcohol yn hwyr y nos a bod angen gostwng oriau agor Y Cwrt ac eraill.

Nododd mai awgrym y Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu yw gostwng oriau mân-werthu alcohol yn yr eiddo a'r oriau agor i 02.00 yn ddyddiol.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

v) Gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

vi) Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

vii) Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v. Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu Hachos

Nododd y Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu y sylwyd bod cwsmeriaid yn dod allan o'r eiddo gyda bwyd poeth ar ôl 23.00 ac nid yw'n ran o'r drwydded.

Manteisiodd y preswylwyr lleol oedd yn bresennol, ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y canlynol –

- Y ceir problemau gyda sŵn tu allan i'r eiddo ac ar y stryd a oedd yn amharu ar eu mwynderau yn enwedig rhwng 01.00 a 04.00.

Mewn ymateb i'r uchod, nododd deilydd y drwydded y sylwadau canlynol –

- Nad oedd yn derbyn bod y sŵn yn y Stryd Fawr yn deillio o'i siop gan bod eiddo trwyddedig eraill yn y dref.
- Y byddai cwtogi'r oriau yn sicr o effeithio ar ddyfodol y busnes.
- Bod angen iddynt agor yn hwyr er ceisio cael bywoliaeth.

Nododd Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu, yn dilyn cyfarfod o'r is-bwyllgor yn Nhachwedd 2012 cynhaliwyd cyfarfod gyda deilydd y drwydded yn yr eiddo er ceisio dod i gyfaddawd ynglyn â'r cais. Cynigiwyd iddo yr adeg hynny hyd at 02.00 i gynnal gweithgareddau trwyddedig gyda'r eiddo i gau am 02.30 ond nid oedd yn fodlon â'r amseroedd hyn ac 'roedd yn awyddus i lynu at yr oriau cyfredol. Nid oes llawer o ddigwyddiadau wedi eu nodi gan yr heddlu'n uniongyrchol yn erbyn yr eiddo. Ers mis Tachwedd 2012 derbyniwyd pedair galwad ffôn yn gysylltiedig â'r eiddo hwn – dwy alwad gan yr eiddo ei hun a'r ddwy alwad arall gan drigolion cyfagos. Yn ystod y cyfarfod â deilydd y drwydded, cadarnhawyd nad oedd llawer o ddigwyddiadau wedi cymryd lle yn yr eiddo ond bod problemau wrth i gwsmeriaid adael y lle. 'Roedd angen sicrhau bod cwsmeriaid yn gadael yr eiddo'n dawel ac i barchu anghenion trigolion lleol. Trafodwyd hefyd yr angen am oruchwylwyr drysau gan bod y deilydd y cau'r drysau i'r eiddo yn eithaf cynnar er mwy rheoli'r rhai sy'n dod i mewn ac allan o'r eiddo. Nid oedd y deilydd yn fodlon â'r awgrym i gael goruchwylwyr drysau ac nid yw'r heddlu'n gofyn am hyn fel amod. Fodd bynnag, os yw'r deilydd yn rheoli'r mynediad, 'roedd angen iddo fod yn gofrestredig gan yr SIA. Fe ychwanegodd y deilydd y byddai'n hoffi monitro'r sefyllfa am gyfnod o chwe mis a bod croeso i'r heddlu ar unrhyw adeg gael edrych ar y teledu cylch cyfyng yr eiddo er cadarnhau os yw'r cwynion yn gysylltiedig â'r eiddo. Yn dilyn trafodaeth ag Arolygydd yr Heddlu, argymhelliad yr heddlu fyddai i'r eiddo gael cynnal gweithgareddau trwyddedig hyd at 02.00, sy'n cydymffurfio ag eiddo cyffelyb eraill yn y dref, gyda'r eiddo'n cau i'r cyhoedd am 02.30. Nododd i ddeilydd y drwydded ddangos yn y gorffennol, yn ôl y dystiolaeth a gafwyd eisoes, nad oedd yn gallu cadw at yr oriau, ac oherwydd hynny, byddai'r heddlu'n bryderus os byddai hyn yn parhau yn yr eiddo. Cyfeiriodd at y ffaith bod deilydd y drwydded yn berson sy'n cynorthwyo'r heddlu, ac wedi gwneud hynny ar sawl achlysur yn y gorffennol, ac nid yw'r argymhellion hyn yn faterion personol yn erbyn y deilydd.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

'Roedd yr aelodau o'r farn y dylid gwrthod y cais am adolygiad gan nad oedd tystiolaeth ddigonol wedi ei chyflwyno i allu cwtogi'r oriau ac felly bydd yr oriau'n aros fel y maent. Yn ogystal, nid oedd digon o dystiolaeth i brofi bod y sŵn yn deillio'n uniongyrchol o'r eiddo ac nid oedd linc rhwng lluniaeth hwyr yn y nos a gostwng yr oriau. 'Roedd tor-amod wedi digwydd oherwydd y gwerthwyd lluniaeth hwyr yn y nos yn yr eiddo heb ganiatâd ac efallai byddai'n destun adolygiad pellach neu achos troseddol. Yn wyneb hyn, dylid gofyn i ddeilydd y drwydded gyflwyno cais i gynnwys darparu lluniaeth hwyr yn y nos fel ychwanegiad i'r drwydded. Os yw am reoli'r mynediad i'r eiddo, dylai fod yn gofrestredig gan yr SIA.

**PENDERFYNWYD**
**a) Gwrthod y cais am adolygiad.**
**b) Awgrymu wrth deilydd y drwydded i gyflwyno cais i gynnwys darparu lluniaeth hwyr yn y nos fel ychwanegiad i'r drwydded.**
**c) Y dylai deilydd y drwydded gael tystysgrif SIA, os am reoli'r mynediad i'r eiddo.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r

dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 1.30pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 27.03.13

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr John Brynmor Hughes ac Angela Russell

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – BACH WEN FARM, CLYNNOG FAWR, CAERNARFON**

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ar ran Bach Wen Farm, Clynnog Fawr, Caernarfon:** Mr John Clifford a Ms Helen Plaumer

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Mrs Marian E. Roberts, Mrs Martha E. Jones, Mr R.J. Owen a Mr Huw J. Jones

**Aelod Lleol:** Y Cynghorydd Owain Williams

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran Bach Wen Farm, Clynnog Fawr, Caernarfon i werthu alcohol rhwng 10.00 a 01.00, saith diwrnod yr wythnos. Yn ogystal, gwneir cais am gerddoriaeth wedi ei recordio, perfformio dawns a gwerthu lluniaeth hwyr y nos hyd at 01.00. Gofynnir am yr hawl i ddangos ffilmiau a perfformio dramau a cherddoriaeth fyw hyd at 23.00. Nododd bod cerddoriaeth fyw yn ddarostyngedig i'r eithriadau a gyflwynwyd yn Neddf Cerddoriaeth Fyw 2012. Golygai hyn, nad yw cerddoriaeth fyw yn weithgaredd drwyddedig mewn eiddo trwyddedig neu weithle hyd at 23.00 i gynulleidfa dan 200 o bobl. Gofynnir am yr hawl i gynnal y gweithgareddau trwyddedig, ac eithrio gwerthu alcohol, tu mewn a thu allan i'r eiddo, am yr oriau a nodir. Gofynnir hefyd am yr hawl i agor yr eiddo i'r cyhoedd rhwng 10.00 a 01.30, saith diwrnod yr wythnos.

Nododd i'r heddlu drafod y cais â'r ymgeisydd cyn iddo gael ei gyflwyno, a gan fod y cais yn unol â'r trafodaethau a gafwyd, nid oedd gwrthwynebiad iddo.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, ni dderbyniwyd sylwadau gan Gyngor Cymuned Clynnog. Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais gan yr heddlu na'r Gwasanaeth Tân ac Achub, gyda sylwadau. Derbyniwyd sylwadau ar amodau sŵn gan Swyddog Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor. Derbyniwyd gwrthwynebiadau i'r cais gan rhai o'r preswylwyr cyfagos ac ar ran Canolfan Hanes Uwchgwyrfai a Chapel Ebeneser, Clynnog Fawr. Gwrthwynebir ar sail y pedwar amcan trwyddedu ac yn benodol, cyfeirir at y potensial o drosedd ac anhrefn yng nghyd-destun lefel plismona mewn cymuned fechan cefn gwlad. Mynegir pryderon gan sawl un parthed diogelwch plant a phobl ar y ffordd fynedfa sydd hefyd yn lwybr cyhoeddus i lan y môr, yn ogystal a'r potensial o niwsans sŵn i drigolion cyfagos yn y gymuned. 'Roedd pryder hefyd nad yw'r cais yn gydnaws â natur a diwylliant yr ardal, ond nid yw'r ystyriaethau hyn, er yn rhai pwysig o fewn cymunedau, yn rhai sy'n berthnasol i'r amcanion trwyddedu.

Ymddiheurodd y swyddog i'r aelod lleol am anfon llythyr iddo i'w hen gyfeiriad gan nad oedd yn ymwybodol ei fod wedi symud i eiddo arall. Yn wyneb hynny, nid oedd wedi derbyn y llythyr ac ni chafodd gyfle i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y cais.

Oherwydd hyn, 'roedd y partion perthnasol yn fodlon i'r aelod lleol gyflwyno ei sylwadau ar lafar.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii Gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v. Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu Hachos

Wrth gefnogi'r cais, nododd yr ymgeisydd y sylwadau canlynol –

- Iddo gymryd amser i baratoi'r cais a hynny mewn ymgynghoriad â'r Heddlu, Gwasanaeth Tân ac Achub ac Adran Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor er sicrhau bod y manylion yn gywir ac yn gynaliadwy.
- Nad oedd yn fwriad ganddo i agor yr eiddo fel clwb na thafarn.
- Nad oedd darpariaeth o'r fath yng Nghlynnog ar hyn o bryd ar ôl i Westy'r Beuno gau.
- Y byddai'r ddarparaieth a gynnigir yn cynnwys nosweithiau cymdeithasol yn ymwneud â'r gymuned, priodasau a.y
- Nad oedd bwriad i agor yr eiddo tan 01.00 bob noson o'r wythnos oddigerth pan gynhelir achlysuron arbennig fel priodasau a.y. Yn gyffredinol, bwriedir cau ar yr hwyraf am 23.00.
- Y gallai hyd at 35 o bobl aros yn yr wyth bwthyn gwyliau a'r ysgubor ac edrychir yn bennaf i'r ddarpariaeth y gofynnir amdano, fod ar eu cyfer hwy. Nad oedd yn bwriadu agor i'r cyhoedd fel y cyfryw oni bai y derbynnir cais yn lleol i gynnal rhyw weithgaredd neilltuol.
- Mewn perthynas â'r agweddau sŵn, 'roedd wedi cydweithio â swyddog o Adran Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor ac iddo gymryd camau i insiwleiddio'r ysgubor ac nad oedd ffenestri ynddo ar wahân i rai yn ffrynt yr adeilad sy'n wynebu'r môr. 'Roedd y safle yn bell o'r pentref gyda'r briffordd gerllaw ac felly ni fyddai unrhyw fath o sŵn yn debygol o amharu ar drigolion y pentref.
- Y math o gerddoriaeth y bwriedir ei gynnal yno yn bennaf fyddai cerddoriaeth gwerin a cherddoriaeth (rhannol) gitar acwstig.
- Y byddai'n fodlon cydweithio â'r gymuned a chynnal gweithgareddau bychan Cymreig yno.
- Ei fod yn berchennog y ffordd a arweiniai at y safle ac 'roedd yn bosibl i ddau gar basio eu gilydd ar y ffordd.
- Y bwriedir gosod system teledu cylch cyfyng yno .
- Y caniatawyd cais cynllunio yn ddiweddar i newid defnydd yr ysgubor i dŷ gwyliau.
- Y cyflogir pobl leol a'i fod yn awyddus i greu hyd at dair swydd ychwanegol yno.
- Y gwerthir cwrw Cymreig yn unig yno.
- Nad oes unrhyw fwriad i amharu ar dawelwch yr ardal.
- Y byddai oedran yr ymwelwyr a fyddai'n cael eu denu yno i aros yn 35 a hŷn.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr, ac adroddodd Mr Ian Williams Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu y cynhaliwyd cyfarfod gyda deilydd y drwydded i drafod y cais ac mae'r cais a gyflwynwyd yn unol â'r trafodaethau hynny. Parthed yr oriau y gofynnir amdanynt, nid oes rheidrwydd i'r eiddo fod ar agor am yr oriau hyn. Trafodwyd system teledu cylch cyfyng yn yr eiddo a hefyd 'roedd angen sicrwydd parthed amddiffyn plant rhag niwed, a chytunwyd i weithredu polisi her 21. Nododd ni chaniateir i blant

dan 16 oed fod mewn eiddo trwyddedig rhwng 00.00 a 06.00. 'Roedd y cais yn cynnig hyblygrwydd ac nid oedd tystiolaeth i'w wrthwynebu. Fodd bynnag, os y canfyddir problemau'n deillio o'r eiddo, fe gesglir tystiolaeth ac adolygir y drwydded os byddai angen.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith parthed cynnal y gweithgareddau trwyddedig tu mewn a thu allan i'r eiddo, hysbysodd deilydd y drwydded y cynhelir rhai o'r digwyddiadau tu allan ar adegau arbennig yn unig a sicrhaodd na chwaraeir cerddoriaeth tu allan yn hwyr y nos. 'Roedd yn fodlon monitro lefel y sŵn er sicrhau na fyddai'n achosi unrhyw ymyrraeth ac 'roedd Adran Gwarchod y Cyhoedd yn cytuno â hynny.

Nododd yr aelod lleol bod yna bryderon yn lleol am y cais hwn yn bennaf yr elfennau sŵn, niwsans cyhoeddus a'r oriau y gofynnir amdanynt. 'Roedd o'r farn y dylid cwtogi'r oriau i 23.00 yn ddyddiol. Cyfeiriodd at y ffaith bod sŵn y tonnau i'w clywed o fynwent yr eglwys, ac yn sicr byddai sŵn cerddoriaeth i'w glywed o'r safle. Yn ogystal byddai sŵn cerbydau i'w clywed yn mynd a dod o'r safle'n hwyr y nos ac yn debygol o amharu ar fwynderau trigolion y pentref

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- Y byddai'n creu sŵn a niwsans mewn ardal mor ddistaw.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Gan bod hwn yn gais o'r newydd ar gyfer yr eiddo, nid oedd tystiolaeth yn bodoli o unrhyw broblemau gyda chynnal gweithgareddau trwyddedig. Yn ogystal â hyn, 'roedd y cais wedi ei drafod â'r heddlu ymlaen llaw ac 'roedd amodau sŵn hefyd i'w gosod ar y drwydded. Tra'n cydnabod pryderon yr aelod lleol a'r gwrthwynebwyr, 'roedd yr aelodau o'r farn nad oes tystiolaeth uniongyrchol berthnasol i'r eiddo fyddai'n cyfiawnhau peidio â rhoddi'r drwydded y gofynwyd amdano. Penderfynwyd felly caniatau'r cais gyda'r amodau a nodir isod.

**PENDERFYNWYD caniatau trwydded eiddo ar gyfer Bach Wen Farm, Clynnog Fawr, Caernarfon fel a ganlyn –**

**a) Caniatau perfformio dramau (paragraff A) a dangos ffilmiau (paragraff B) rhwng 10.00 a 23.00, dydd Llun i ddydd Sul.**

**b) Caniatau cerddoriaeth wedi ei recordio (paragraff F) a perfformio dawns (paragraff G) rhwng 10.00 a 01.00, dydd Llun i ddydd Sul.**

**c) Caniatau gwerthu lluniaeth hwyr y nos (paragraff I) rhwng 23.00 a 01.00, dydd Llun i ddydd Sul.**

**ch) Caniatau gwerthu alcohol (paragraff J) rhwng 10.00 a 01.00, dydd Llun i ddydd Sul.**

**d) Caniatau i'r eiddo fod yn agored i'r cyhoedd (paragraff L) rhwng 10.00 a 01.30, dydd Llun i ddydd Sul.**

**dd) Bod y camau a ddisgrifir ym mharagraff M o'r cais i'w cynnwys fel amodau ar y drwydded.**

**e) Gosod yr amodau canlynol a argymhellir gan Swyddog Gwarchod y Cyhoedd –**

**i) Ni chaniateir cynnydd yn y lefel LAeq 15 munud na'r lefel LAeq 15 munud yn y bandiau amledd trydedd wythfed 31.5, 63 a 125Hz oddifewn i unrhyw eiddo preswyl (wedi ei fesur gyda ffenestri'r eiddo ar agor neu ar gau) o ganlyniad i sŵn adloniant yn deillio o'r eiddo drwyddedig. I bwrpas yr amod yma mae LAeq wedi ei ddiffinio yn BS4142:1997.**

**ii) Er mwyn arbed sŵn a dirgrynant adael yr eiddo trwyddedig, bydd drysau a ffenestri'r adeilad yn cael eu cadw ar gau yn ystod yr adloniant.**

**iii) Os, wedi cyhoeddi'r drwydded hon, bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn tystiolaeth nad oes cydymffurfiaeth ag amod (i), bydd perchennog yr eiddo'n gwneud y canlynol –**

- **Gwneud unrhyw waith ynysu/ arbed sŵn er mwyn sicrhau bod yr eiddo'n cydymffurfio ag amod (i| a/neu**
- **Gosod dyfais rheoli sŵn yn yr ystafell/oedd lle cynhelir yr adloniant. Bydd y ddyfais wedi ei sefydlu i dorri cyflenwad trydan unrhyw system sain neu wrthsefyll cynnydd mewn lefel sŵn uwchlaw'r hyn a sefydlwyd fel uchafswm caniataeedig.**

**iv) Unwaith bydd lefel ar unrhyw ddyfais rheoli sŵn a osodwyd yn cael ei sefydlu, nid yw'r lefel yma i'w newid heb ymgynghoriad â Swyddog Iechyd Amgylchedd Llygredd, Cyngor Gwynedd.**
**v) Ni chaniateir gwaredu gwastraff poteli neu ganiau i gynhwysydd tu allan i'r adeilad trwyddedig rhwng yr oriau 22.00 a 08.00. Bydd y poteli'n cael eu cadw o fewn cwrtil yr eiddo mewn sgip neu fin gyda chaead.**
**vi) Bydd arwyddion clir a dealladwy'n cael eu gosod wrth bob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid sy'n gadael yr adeilad i ystyried trigolion lleol, yn arbennig yn eu hannog i beidio â gweiddi, clepian drysau cerbydau na chanu cyrn cerbydau.**
**vii) Ei bod yn ddyletswydd i ddeilydd trwydded personol yr eiddo, y goruchwyliwr eiddo dynodedig a'r goruchwyliwr drysau i fonitro ymddygiad yr unigolion sy'n gadael yr eiddo a'u hatgoffa o'u cyfrifoldeb cyhoeddus lle bo angen.**

Adroddodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 12.10pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 22.04.13

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Ann Williams, Elfed Williams

**Hefyd yn bresennol:** Geraint Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu), Alun Evans (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

## 1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – GŴYL KAYA, YSTÂD Y FAENOL, BANGOR

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ar ran Gŵyl Kaya, Ystâd y Faenol, Bangor:** Mr Luke Fitzmaurice (Ymgeisydd), Mr Dumiso Gambe a Mr Adam Isbell

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru) a'r Rhingyll Bill Coppack

**Ar ran y Gwasanaeth Tân ac Achub:** Mr Terry Williams

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Mr Brian a Mrs Jenny Osborne

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran Gŵyl Kaya, Ystâd y Faenol, Bangor i gynnal yr ŵyl ar yr ystâd yn flynyddol. Cynhaliwyd yr ŵyl eisoes yn 2012 gan ddefnyddio trwydded yr ystâd yr adeg hynny. Gan bod trefnwyr yr ŵyl yn bwriadu ei chynnal yn y lleoliad hwn yn flynyddol, gwnaed penderfyniad ar gyngor yr Awdurdod Trwyddedu i gyflwyno cais trwydded eiddo'n benodol ar gyfer yr ŵyl. Prif fwriad yr ŵyl yw cyflwyno cerddoriaeth fyw byd-eang i gynulleidfa o ddim mwy na 5,000 ac fe'i cynhelir eleni o 24 Mai hyd at fore 27 Mai. Yn ogystal, bwriedir cynnal gweithgareddau megis cabaret, comedi, cyflwyniadau llafar, celfyddyd wedi ei berfformio, perfformiadau syrcas a chynnal ffair. Rhoddodd fanylion am yr oriau y gofynnir amdanynt i gynnal y gweithgareddau trwyddedig.

Nododd i'r heddlu drafod y cais â'r ymgeisydd cyn iddo gael ei gyflwyno, a gan fod y cais yn unol â'r trafodaethau a gafwyd, nid oedd gwrthwynebiad iddo.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, ni dderbyniwyd sylwadau gan yr aelod lleol na Chyngor Cymuned Pentir. Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais gan yr heddlu. Derbyniwyd llythyr gan breswylwyr cyfagos yn datgan pryder y byddai sŵn cerddoriaeth o'r ŵyl yn debygol o amharu arnynt yn yr un modd mae sŵn o ddigwyddiadau mawr eraill ar Ystâd y Faenol wedi amharu arnynt yn y gorffennol. Datgenir pryderon hefyd ynglŷn â chau prif lonydd mynedfa'r ystâd a chyfeirio cerddwyr heibio i anheddau gan achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol yn hwyr yn y nos. Cafwyd ymateb cadarnhaol gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yn dilyn cylchrediad o ddrafft o'r cais a gyflwynwyd i'r awdurdodau perthnasol. Cytunodd yr ymgeisydd i ddarparu dogfennau gan gynnwys asesiadau risg wyth wythnos cyn dechrau'r digwyddiad ac 'roedd hyn yn gam positif ymlaen i sicrhau bod cyfle i gael trafodaeth ar unrhyw broblemau mewn da bryd cyn dechrau'r ŵyl. Gwrthwynebir y cais gan Swyddog Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor ar y sail nad yw'r ymgeisydd wedi gallu arddangos y bydd modd osgoi tanseilio'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus. Os penderfynir caniatau'r cais, argymhelliad y swyddog yw cyfyngu gweithgareddau trwyddedig tros dri diwrnod mewn unrhyw 12 mis. Yn ogystal, gofynnir i'r is-bwyllgor gynnwys yr amodau sŵn a restrir yn adroddiad Swyddog Gwarchod y Cyhoedd os penderfynir caniatau'r cais. Derbyniwyd sylwadau hefyd ar y cais drafft am drwydded gan

swyddogion parthed materion Iechyd a Diogelwch a Diogelwch Bwyd. Ategwyd y pwysigrwydd o sicrhau bod dogfennau perthnasol yn cael eu derbyn gan y trefnwyr mewn da bryd cyn y digwyddiad i sicrhau bod cyfle i ddatrys unrhyw broblemau a allai godi.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii Gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v. Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu Hachos

Wrth gefnogi'r cais, nododd yr ymgeisydd y sylwadau canlynol –

- Y cyflwynir y cais er gweithredu o fewn Ystâd y Faenol o ganlyniad i'r ŵyl a gynhaliwyd y llynedd.
- Bod yr ŵyl yn un cymharol fychan o'i gymharu â gwyliau cyffelyb eraill – caniateir hyd at 5,000 o bobl i'w mynychu.
- Y neilltuwyd caeau penodol ar yr ystâd i gynnal yr ŵyl er ceisio cydymffurfio â egwyddorion y Ddeddf Trwyddedu.
- Y cefnogir yr ŵyl yn ariannol gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd ac fe'i anelir yn bennaf ar gyfer teuluoedd a bod manteision diwylliannol yn deillio ohoni ar gyfer yr ardal.
- Bod manteision i'r ŵyl gael trwydded ei hun gan y rhoddir cyfle i'r holl bartion perthnasol gael cyflwyno sylwadau ar y cais.
- Y gwerthir yr alcohol ymhell o'r ardal o neilltuwyd ar gyfer plant. Ni chaniateir mynediad i blant dan 18 oed ond gyda rhieni a gwarcheidwaid yn unig.
- Y caniateir gwersylla mewn grwpiau teulu yn unig er galluogi'r rhieni i gadw golwg ar y plant.
- Bydd Her 21 yn weithredol ac yn cael ei fonitro yn y bar.
- Bydd polisi amddiffyn plant yn weithredol.
- Nad oedd cofnod o broblemau sŵn yn deillio o ŵyl y llynedd ac nad oes unrhyw fwriad i greu niwsans.
- Y bwriedir cynnal y gerddoriaeth fyw tan 00.00 a'r gerddoriaeth wedi ei recordio tan 02.00.
- Y bwriedir dilyn y polisi rheoli sŵn o safbwynt rheoli sŵn ac ymateb i unrhyw gwynion.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr, ac adroddodd y Rhingyll Bill Coppack bod Gŵyl Radio 1 a gynhaliwyd ar yr ystâd wedi gorffen am 22.00. Gan bod yr ŵyl hon a rhai eraill cyffelyb a gynhaliwyd ar yr ystâd wedi gorffen cyn hanner nos, 'roedd hyn wedi effeithio'n fawr ar drefi fel Bangor a Chaernarfon ar ôl yr amser hwn gan bod nifer sylweddol o bobl yn tyrru i'r trefi hyn ac nad oedd y capasiti gan yr heddlu i ddelio gyda unrhyw broblemau. 'Roedd o'r farn y dylai'r ŵyl hon gael ei chynnal tan 02.00 gan y byddai'n fodd o gadw pobl ar y safle'n hwyr ac yn osgoi iddynt orfod fynd wedyn i glybiau a.y. ym Mangor a Chaernarfon. Nododd mai argymhelliad y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd yw bod cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio yn gorffen am 23.00, ond 'roedd yn gwrthwynebu hynny.

Hysbysodd y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd y cynhaliwyd trafodaethau gyda threfnwyr yr ŵyl ac iddynt ddiwygio ychydig ar y cais sef i gynnal yr ŵyl unwaith y flwyddyn am gyfnod o ddim mwy na phum diwrnod yn olynnol. Nododd i'r ymgeisydd gyflwyno polisi rheoli sŵn sy'n cynnig –
a) Bydd lefel y miwsig ger y ddesg rheoli sŵn ddim uwchlaw 98dB(A) tros gyfnod o 15 munud.
b) Ni fydd adloniant byw yn y prif babell wedi hanner nos nac wedi 01.00 ar lwyfannau llai.
c) Ar ôl hanner nos bydd lefelau sŵn o leiaf 3dB(A) yn is nag yn flaenorol.
ch) Bydd lefelau i'w monitro ger y brif ddesg ar y prif lwyfan a'i gofnodi bob 30 munud ac ar adegau rheolaidd ger llwyfannau llai ar y safle.

Cyfeiriodd y swyddog at ddogfen y Cyngor Sŵn sef "Côd ymarfer ar gyfer rheoli sŵn amgylcheddol mewn cyngherddau" sy'n datgan na ddylai sŵn cerddoriaeth o gyngherddau rhwng 9.00 a 23.00 fod uwchlaw lefelau priodol, gan ystyried nifer dyddiau'r cyngherddau ar y safle mewn blwyddyn a natur y lleoliad. Bydd unrhyw fesur ar gyfer sefydlu lefelau i'w gynnal 1 metr i ffwrdd o bared unrhyw eiddo sensitif i sŵn. Ystyrir sŵn cefndirol yn gyfartaledd mathemategol y paramedr LA90, 1 awr wedi ei fesur tros bedair awr olaf yr oriau a geisir ar gyfer y digwyddiad. Datgan y ddogfen hefyd ar gyfer cyngherddau rhwng 23.00 a 9.00, na ddylai sŵn cerddoriaeth gael ei glywed mewn eiddo sensitif i sŵn gyda ffenestri ar agor fel yn arferol ar gyfer y pwrpas o awyru'r eiddo. Ceir hefyd gyfarwyddyd nad yw'r pwysedd mesur sŵn dB(A) bob amser yn gwarchod rhag niwsans sŵn amledd isel a allai gael ei gynhyrchu gan adloniant cerddoriaeth chwyddedig.

Mewn perthynas â'r asesiad ardrawiad sŵn tebygol, nododd y swyddog bod yr ymgeisydd yn bwriadu gosod tair llwyfan ar y safle gyda systemau sŵn arnynt, yn gyffredinol yn anelu am yr afon Menai. O'r wybodaeth a ddarparwyd, 'roedd modd amcangyfrif yn fras beth fyddai lefelau sŵn tebygol adloniant o'r ddau lwyfan ger anheddau cyfagos. Ar gyfer y pwrpas o gyfrifo lefelau, ystyriwyd bod dau brif system sŵn yn chwarae ar yr un pryd sy'n creu lefel sŵn cyffredinol o 101dB(A) yn lleol ger y llwyfannau. Ni ystyriwyd effaith unrhyw rwystr nac (ar gyfer rhai o'r eiddo tu allan i'r Faenol) effaith posibl cyfeirio seinyddion y systemau sŵn at leoliad penodol wrth gwblhau'r cyfrifo.

Nododd bod Faenol Events Cyf yn ddeilwyr trwydded eiddo ar safle'r Faenol yn barod ac mae'r drwydded honno'n caniatau defnydd o'r safle ar gyfer cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio rhwng 11.00 a 02.00, dydd Llun i ddydd Sul, yn ystod y flwyddyn. Dengys o'r wybodaeth a dderbyniwyd na allai'r cais dan ystyriaeth, fel mae'n sefyll, gydymffurfio ag argymhellion y Cyngor Sŵn oherwydd y gofynnir am ganiatâd i gynnal pum diwrnod o adloniant. Cyn 23.00 fe fydd lefel sŵn goruwch yr hyn ystyrir yn dderbyniol mewn nifer o eiddo ar yr ystâd sef 15dB(A) uwchlaw lefel sŵn cefndirol yr ardal tros unrhyw gyfnod o 15 munud. Ar ôl 23.00 fe fyddai sŵn yr adloniant (yn unol â'r lefelau a gyfrifwyd) yn debygol o gael ei glywed yn glir mewn nifer fawr o anheddau cyfagos pan fyddai'r ffenestri ar agor ar gyfer pwrpas awyru. Datganodd bryder y byddai lefelau sŵn yn ystod oriau'r nos, 23.00 – 02.00, ymhell uwchlaw'r hyn a ystyrir yn dderbyniol gan Gyfundrefn Iechyd y Byd o fewn llofftydd tai cyfagos gyda'r ffenestri ar agor ar gyfer awyru. Mae'n debygol y bydd lefel sŵn yr adloniant uwchlaw 30dB(A) mewn nifer o'r tai ar ac o amgylch y safle.

Argymhellodd y swyddog y dylid gwrthod y cais oherwydd nad yw'r ymgeisydd yn gallu dangos bod modd i'r bwriad fodloni un o brif amcanion y gyfundrefn drwyddedu, sef atal niwsans cyhoeddus. Os nad yw'r is-bwyllgor yn fodlon derbyn yr argymhelliad hwn, yna dylid cynnal yr adloniant byw ac wedi ei recordio tros dri diwrnod mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, rhwng 9.00 a 23.00, yn ddyddiol. Yn ogystal, os gwrthodir yr argymhelliad, gofynnodd am i'r amodau sŵn gael eu cynnwys ar y drwydded.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, hysbysodd yr ymgeisydd y cyflwynwyd fersiwn drafft o'r cais i sylw'r partion perthnasol yn Chwefror 2013 a bod y cais hwnnw ar gyfer bob diwrnod o'r flwyddyn. Derbyniwyd ymateb gan Adran Gwarchod y Cyhoedd yn argymell y dylid nodi'n benodol y nifer o ddyddiau y bwriedir eu defnyddio i gynnal yr ŵyl, pryd y cytunwyd ar bum

diwrnod yn olynnol. Cadarnhaodd mai tri diwrnod yn hytrach na phump diwrnod fydd hyd yr ŵyl. Fodd bynnag, yn ystod y trafodaethau, ni fu i'r adran grybwyll y dylai'r ŵyl orffen am 23.00.

Hysbysodd y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd ymhellach y seiliwyd ei sylwadau ar ddogfen y Cyngor Sŵn sy'n cyfeirio at safleoedd yng nghefn gwlad lle mae un lefel sŵn ar gyfer digwyddiadau hyd at dri diwrnod ond bod cyfyngiadau pellach ar lefel sŵn ar ddigwyddiadau tros pum diwrnod. Rhagwelai broblemau sŵn yn yr ardal os caniateir cynnal yr ŵyl ar ôl 23.00.

Adroddodd Mr Terry Williams, Gwasanaeth Tân ac Achub i'r ymgeisydd ddarparu dogfennau gan gynnwys asesiadau risg, wyth wythnos cyn dechrau'r digwyddiad. Cydnabu bod yna ychydig o gamddealltwriaeth parthed y gofynion ynglyn â gosod pebyll neu rhywbeth tros dro ar y safle. 'Roedd yn bwysig bod trefnwyr yr ŵyl yn cydymffurfio â'r rheolau tân.

Cyfeiriodd yr ymgeisydd at y ffaith ei fod yn fwriad ganddo i gydweithio â'r Gwasanaeth Tân ac Achub ac y cyflwynir cynllun rheoli diogelwch drwy'r broses ESAG.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- Nad oeddynt yn derbyn gwybodaeth am y gwahanol ddigwyddiadau a gynhelir ar yr ystâd ac nad oedd y sylwadau yn eu llythyr yn cyfeirio'n benodol at yr ŵyl hon.
- Eu bod yn eithaf bodlon gyda'r amodau sŵn a argymhellir.

Hysbysodd yr ymgeisydd ymhellach y byddai gorffen yr ŵyl am 23.00 yn debygol o greu colled ariannol ac y byddai gorffen yr ŵyl am 02.00 yn fwy derbyniol. 'Roedd yn obeithiol y gellir cael perthynas dda gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Gan bod hwn yn gais o'r newydd ar gyfer yr ŵyl, nid oedd tystiolaeth yn bodoli o unrhyw broblemau gyda chynnal gweithgareddau trwyddedig. Yn ogystal â hyn, 'roedd y cais wedi ei drafod â'r heddlu ymlaen llaw ac nid oedd ganddynt wrthwynebiad iddo. Gan mai ychydig o wrthwynebiadau a dderbyniwyd i'r cais, 'roedd yr aelodau o'r farn nad oes tystiolaeth uniongyrchol berthnasol i'r ŵyl fyddai'n cyfiawnhau peidio â rhoddi'r drwydded y gofynnwyd amdano. Penderfynwyd felly caniatau'r cais gyda'r amodau a nodir isod.

